Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 11 Gorffennaf 2018

Aelod / Swyddog Arweiniol: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Awdur yr Adroddiad: Lisa Lovegrove – Prif Archwilydd Mewnol

Teitl: Archwiliad Mewnol o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion

---

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?
   Mae'r adroddiad hwn (atodiad ynghlwm) yn darparu manylion ar adroddiad diweddar yr Adain Archwilio Mewnol ar Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion a dderbyniodd raddfa Sicrwydd 'Isel'.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?
   Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi cytuno y bydd yn derbyn ac yn trafod pob adroddiad yr Adain Archwilio Mewnol sy'n derbyn graddfa Sicrwydd 'Isel' fel eu bod yn gallu trafod y canlyniad a derbyn sicrwydd y gwneir gwelliannau.

3. Beth yw'r Argymhellion?
   Mae'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar yr adroddiad ac yn penderfynu a oes angen adroddiadau diweddaru pellach ar gynnydd gyda'r cynllun gweithredu gwella.

4. Manylion yr Adroddiad
   Mae'r adroddiad Archwilio Mewnol llawn wedi'i gynnwys fel Atodiad 1.

   Roedd yr adolygiad o Iechyd a Diogelwch mewn Ysgolion yn cynnwys: polisïau a gweithdrefnau, asesiad risg mewn ysgolion, hyfforddiant ac ymwybyddiaeth, adrodd damweiniau a digwyddiadau ac adrodd ymatebol. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad, o ystyried natur y materion a nodwyd ac effaith posibl unrhyw oblygiadau andwyol, ein bod yn rhoi graddfa sicrwydd 'isel' cyffredinol.

   Rydym wedi derbyn ymateb positif i'n hadroddiad ac mae cam gweithredu eisoes ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?
   Amherthnasol – does dim penderfyniad o gynnig ar gyfer newid gyda'r adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?
   Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?
Mae gwaith yr adain archwilio mewnol yn rhoi sicrwydd i'r cyngor ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolau sydd ar waith i reoli a lliniaru risgiau. Bydd adain Archwilio Mewnol yn dilyn y camau a gytunwyd i sicrhau bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud i leihau'r risgiau a nodwyd. Fe all y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ofyn am adroddiadau diweddaru er mwyn monitro cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu gwella.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad
Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.